21. Cydweithredu a Ffedereiddio

Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i'r ddeddfwriaeth, yr amodau a'r prosesau sy'n caniatáu:

- i ysgolion a gynhelir fabwysiadu trefniadau cydweithredol gydag ysgolion a gynhelir eraill, gan gynnwys cyd-gyfarfodydd ar gyfer cyrff llywodraethu a chydbwyllgorau (cydweithredu);
- i ysgolion a gynhelir fabwysiadu trefniadau cydweithredol gyda chyrff addysg bellach, gan gynnwys cyd-gyfarfodydd ar gyfer cyrff llywodraethu a chydbwyllgorau (cydweithredu); ac
- i ysgolion a gynhelir ffedereiddio o dan un corff llywodraethu (ffedereiddio).

Cefndir

1. Un o brif amcanion Llywodraeth y Cynulliad yw codi safonau pob sefydliad addysgol yng Nghymru. Gellir cymryd camau i gyrraedd y nod hwnnw drwy bennu rheoliadau i annog sefydliadau i gydweithio. Mae hefyd yn ategu polisi LICC i annog sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio pan fyddai o fudd i'r cyhoedd.

2. Bu'n bosibl i sefydliadau gydweithio'n anffurfiol erioed, ond yn aml byddai'r broses o wneud penderfyniadau'n araf ac yn aml ni fanteisiwyd ar bob cyfle i gydweithio. Wrth ystyried cyd-fentrau, byddai'n rhaid i'r cyrff unigol gytuno â'r cynigion ar wahân. O ganlyniad, roedd cydweithio yn tueddu i fod yn gyfyngedig, a'r penaethiaid ac aelodau'r staff uwch fyddai'n ymgymryd â hyn fel arfer yn hytrach nag aelodau'r corff llywodraethu.

3. Mae'r Rheoliadau Cydweithio rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008 (OS 2008/168) a Rheoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008 (OS 2008/3082) ("y Rheoliadau Cydlafurio") wedi cyflwyno fframwaith i ganiatáu i ddwy neu fwy o ysgolion a gynhelir a dwy neu fwy o ysgolion a gynhelir a chyrff addysg bellach i gydweithio.

4. Mae'r Rheoliadau'n pennu'r fframwaith rheoleiddio a'r trefniadau ar gyfer cydweithio, fel y manylir yn y bennod hon.

Cydweithredu rhwng Cyrff Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir

5. Cydnabyddir yn eang ymrwymiad LICC i'r egwyddor o gydweithredu rhwng cyrff cyhoeddus.

6. Trwy ddod ag ysgolion ynghyd o dan drefniadau cydweithredu gellir defnyddio adnoddau'n well, cronni arbenigedd, a rhoi cyfle i ysgolion drafod dulliau o weithredu sy'n fwy effeithiol ac effeithlon.

7. Caiff y broses o wneud penderfyniadau ar weithgareddau cydweithredu eu symleiddio. Bydd hyn o fantais i ysgolion ac yn eu denu i gydweithio trwy ei wneud yn haws i rannu, meincnodi a datblygu arferion da ac ati y byddai wedi bod yn anodd i ysgolion unigol eu cynnal.

8. Mae enghreifftiau o'r mathau o faterion y gallai cyrff llywodraethu gydweithredu arnynt yn cynnwys:

- dod ag ysgolion gwannach i mewn i glwstwr o ysgolion cryfach;
- manteisio ar arbedion maint;
- trefniadau cydweithio cyfnodol;
- codi safonau drwy rannu'r gwaith o ddarparu'r cwricwlwm, arwain ysgolion a gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â chynhwysiant.

Cyd-destun Deddfwriaethol

9. Daeth y Rheoliadau Cydweithio rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008 i rym ar 16 Mawrth 2008 ac fe'u gwnaed o dan adran 26 o Ddeddf Addysg 2002. Mae modd i bob ysgol a gynhelir gynyddu ei threfniadau cydweithredu gydag ysgolion eraill a gynhelir, gan gynnwys cyd-gyfarfodydd ar gyfer cyrff llywodraethu a chydbwyllgorau.

Cydweithredu rhwng Ysgolion a Gynhelir

10. Gall dau neu fwy o gyrff llywodraethu ("cyrff llywodraethu cydweithredol") drefnu i unrhyw rai o'u swyddogaethau gael eu cyflawni ar y cyd, yn amodol ar offeryn llywodraethu'r ysgol, a rheoliadau 50 i 52 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd). Mae'r rhain yn pennu pa swyddogaethau y gall corff llywodraethu eu dirprwyo i bwyllgor. Ni chaiff cyrff llywodraethu ddirprwyo i bwyllgor swyddogaethau sy'n ymwneud â: chategorïau o lywodraethwyr; cyfansoddiad cyrff llywodraethu; cael gwared ar lywodraethwyr; offerynnau llywodraethu; ethol a chael gwared ar gadeiryddion ac is-gadeiryddion; penodi a chael gwared ar glerc y corff llywodraethu; atal llywodraethwyr dros dro; dirprwyo swyddogaethau; sefydlu pwyllgorau; neu baneli dethol penaethiaid neu ddirprwy benaethiaid.

11. Pan fo cyrff llywodraethu cydweithredol yn gwneud trefniadau o'r fath yng nghyd-destun unrhyw swyddogaeth sy'n gysylltiedig ag aelodau unigol o staff yr ysgol, mae Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 yn berthnasol o safbwynt cyflawni'r swyddogaethau hynny.

12. Gall cyrff llywodraethu cydweithredol ddirprwyo'r gwaith o gyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau y gellir eu dirprwyo i bwyllgor o dan reoliad 50 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, i gydbwyllgor a sefydlwyd ganddynt.

13. Oni nodir yn wanhaol ym mharagraff 21 isod, pob tro y cyfeirir at "bwyllgorau" yn y bennod sy'n ymrin â gweithdrefnau cyrff llywodraethu, dylid ei ddarllen fel "cydbwyllgorau".

14. Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 yn berthnasol i gyd-gyfarfodydd cyrff llywodraethu cydweithredol yn yr un modd â chyfarfodydd cyrff llywodraethu unigol nad ydynt yn perthyn i gytundeb cydweithredu ffurfiol.

Cydweithredu rhwng Cyrff Addysg Bellach a Chyrff Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir

Cyd-destun Deddfwriaethol

15. Daeth Adran 166 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 i rym yng Nghymru ar 30 Mehefin 2008; o dan yr adran hon, gall colegau addysg bellach gydweithredu'n ffurfiol gyda chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir neu sefydliadau addysg bellach eraill gan ddefnyddio cydbwyllgorau. Daeth Rheoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008 i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

Cydweithredu rhwng Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach a rhwng Cyrff Addysg Bellach a Chyrff Addysg Bellach eraill

16. Gall un neu fwy o gyrff llywodraethu ysgolion gydweithredu gydag un neu fwy o gyrff llywodraethu addysg bellach, yn amodol ar offeryn llywodraethu'r ysgol, a rheoliadau 50 i 52 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd), sy'n pennu pa swyddogaethau y gall corff llywodraethu eu dirprwyo i bwyllgor.

17. Gall un neu fwy o gyrff llywodraethu addysg bellach gydweithredu gydag un neu fwy o gyrff llywodraethu ysgolion, yn amodol ar ddarpariaethau yn eu hofferyn a'u herthyglau llywodraethu sydd mewn grym o dan adrannau 22 neu 29 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

18. Gall dau neu fwy o gyrff llywodraethu addysg uwch gytuno ar drefniadau cydweithredu â'i gilydd, yn amodol ar ddarpariaethau eu hofferyn a'u herthyglau llywodraethu sydd mewn grym o dan adrannau 22 neu 29 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

19. Pan fo corff llywodraethu ysgol yn cytuno ar drefniadau cydweithredu fel y'u disgrifir, bydd Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd) yn berthnasol i'r aelodau hynny o staff a gyflogir gan gorff llywodraethu ysgol.

20. Yn unol â pharagraff 21 isod, pan fo cyrff llywodraethu addysg bellach ac ysgolion yn cydweithredu fel y disgrifir ym mharagraffau 16, 17, 18 neu 19 uchod, gallant hefyd ddirprwyo unrhyw rai o'u swyddogaethau i'r cydbwyllgor eu cyflawni.

21. Pan fo'r corff cydweithredu:

- yn gorff llywodraethu ysgol, yr unig swyddogaethau y gall eu dirprwyo i gydbwyllgor yw'r swyddogaethau hynny y gellir eu dirpwyo i bwyllgor o dan reoliad 50 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005; neu
- yn gorff llywodraethu addysg bellach, yr unig swyddogaethau y gall eu dirprwyo i gydbwyllgor yw'r swyddogaethau hynny y gellir eu dirpwyo i bwyllgor o dan ddarpariaethau perthnasol ei offeryn a'i erthyglau llywodraethu sydd mewn grym o dan adrannau 22 i 29 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Gweithdrefnau Cydweithredu

22. Mae'r gweithdrefnau canlynol yn berthnasol pan fo ysgol a gynhelir yn cytuno i gydweithio gydag un neu fwy o ysgolion a gynhelir a/neu gorff/cyrff addysg bellach.

Sefydlu Cydbwyllgorau

23. Bob blwyddyn, rhaid i'r cyrff llywodraethu sy'n cydweithredu bennu ac adolygu'r cyfansoddiad, cylch gwaith ac aelodaeth unrhyw gydbwyllgor(au) maent yn penderfynu ei/eu sefydlu. Am wybodaeth bellach am sefydlu pwyllgorau ysgolion a gynhelir, gweler Pennod 4 y Canllaw hwn o dan y teitl Gweithdrefnau a Chyfarfodydd Cyrff Llywodraethu.

24. Rhaid i gydbwyllgor benodi cadeirydd bob blwyddyn a gall ddiswyddo'i gadeirydd unrhyw bryd. Os bydd y cadeirydd yn absennol, rhaid i'r cydbwyllgor ethol aelod o'r pwyllgor i weithredu fel cadeirydd yn ei (h)absenoldeb. Ni all unrhyw un sydd wedi'i gyflogi i weithio yn yr ysgol neu'r corff addysg bellach, na disgybl sydd ar gofrestr yr ysgol neu fyfyriwr cofrestredig y corff addysg bellach, weithredu fel cadeirydd cydbwyllgor.

25. Y cworwm ar gyfer cyfarfod cydbwyllgor ac unrhyw bleidlais ar unrhyw fater mewn cyfarfod o'r fath, yw hanner (wedi'i dalgrynnu i fyny i rif cyfan) yr aelodau o'r cydbwyllgor ac eithrio unrhyw swyddi gwag ac unrhyw aelodau a waherddir o'r cyfarfod hwnnw.

26. Rhaid i fwyafrif aelodau unrhyw gydbwyllgor fod yn llywodraethwyr y cyrff llywodraethu cyfansoddol.

27. Gall aelodau cydbwyllgor gynnwys aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr (h.y. unigolyn nad yw'n aelod o unrhyw un o'r cyrff llywodraethu cydweithredol). Y cydbwyllgor sy'n pennu pa hawl sydd gan aelodau o'r fath i bleidleisio, ond rhaid i'r mwyafrif o aelodau unrhyw gydbwyllgor fod yn llywodraethwyr.

28. Nid yw'r Rheoliadau Cydweithredu yn diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 o safbwynt sefydlu pwyllgorau sy'n ymdrin â materion cysylltiedig â disgyblu a diswyddo staff. Mae gofynion aelodaeth a chyfrifoldebau'r pwyllgorau hyn yn parhau fel y pennir hwy ym Mhennod 10 o'r Canllaw hwn o dan y teitl Staffio.

Clercod Cydbwyllgorau

29. Rhaid i gydbwyllgor benodi clerc (na all fod yn bennaeth unrhyw un o'r ysgolion neu'r colegau addysg bellach) a gall ddiswyddo'r clerc unrhyw bryd. Os na fydd y clerc yn bresennol mewn cyfarfod, gall cydbwyllgor benodi unrhyw un ohonynt (heblaw penaethiaid yr ysgolion neu'r colegau addysg bellach) i weithredu fel clerc at ddibenion y cyfarfod hwnnw.

30. Swyddogaethau clerc y cydbwyllgor yw :

- galw cyfarfodydd y cydbwyllgor;
- mynychu cyfarfodydd y cydbwyllgor a sicrhau y trefnir cofnodion o'r trafodion; a
- chyflawni unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan y cydbwyllgor.

Aelodau nad ydynt yn Llywodraethwyr

31. Gall aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr chwarae rhan werthfawr wrth ddarparu gwybodaeth a phrofiad ychwanegol i'r cyrff cydweithredol. Yn y rheoliadau, ystyr "aelod nad yw'n llywodraethwr" yw unigolyn a benodir i gydbwyllgor fel aelod o'r pwyllgor hwnnw, ond nad yw'n aelod o un o'r cyrff cydweithredol.

32. Bydd unrhyw un sydd wedi'i anghymwyso rhag bod yn llywodraethwr ysgol neu nad yw'n gymwys i fod yn aelod o gorff addysg bellach wedi'i anghymwyso rhag bod, neu barhau i fod, yn aelod nad yw'n llywodraethwr o gydbwyllgor.

33. Y cyrff cydweithredol fydd yn penderfynu ar hawliau pleidleisio aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr.

34. Ar gyfer ysgolion a gynhelir, pennir hawliau pleidleisio aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion 2005 a Phennod 4 o'r Canllaw hwn o dan y teitl Gweithdrefnau a Chyfarfodydd Cyrff

Llywodraethu. Dylid darllen pob cyfeiriad at “gyrff llywodraethu” fel “cyrff llywodraethu cydweithredol” a phob cyfeiriad at “bwyllgorau” fel “cydbwyllgorau”.

35. Ni ddylid darllen yr wybodaeth sy’n gysylltiedig ag aelodau pwyllgorau nad ydynt yn llywodraethwyr mewn perthynas â’r aelod annibynnol nad yw’n llywodraethwr sydd ei angen ar Baneli Disgyblu a Diswyddo Staff a Phaneli Apelau Disgyblu a Diswyddo Staff a gynullir i glywed honiadau cysylltiedig â materion amddiffyn plant. Am wybodaeth gweler Pennod 10 o dan y teitl Staffio.

Hawliau Pobl i Fynychu Cyfarfodydd Cydbwyllgorau

36. Yn unol â rheoliad 9 o’r Rheoliadau Cydlafurio, mae hawl gan y canlynol i fynychu unrhyw gyfarfod cydbwyllgor:

a. unrhyw aelodau o’r cydbwyllgor, cyn belled nad ydynt wedi’u hatal dros dro gan un o’r cyrff llywodraethu cydweithredol;

b. y penaethiaid, pa un a ydynt yn aelodau o’r cydbwyllgor ai peidio;

c. pennaeth y corff cydweithredol, pa un a yw’n aelod o’r pwyllgor ai peidio;

d. clerc y cydbwyllgor; ac

e. unrhyw bobl eraill a bennir gan y cydbwyllgor.

37. Gall cydbwyllgor wahardd aelod nad yw’n llywodraethwr o unrhyw ran o’i gyfarfod pan fo’r mater dan sylw ynglŷn â disgybl neu aelod o staff unigol.

38. Ni fydd paragraff 36b yn berthnasol ar gyfer y pwyllgorau y cyfeirir atynt yn rheoliadau 55 a 56 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 neu mewn perthynas ag unrhyw gydbwyllgor neu banel dethol sy’n cyflawni unrhyw swyddogaeth o dan reoliadau 9 i 34 o Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006.

39. O dan amgylchiadau o’r fath, nid oes hawl gan bennaeth i fynychu cyfarfod cydbwyllgor fel aelod o’r Pwyllgor hwnnw. O dan y rheoliadau, nid yw hyn yn atal pennaeth rhag bod yn bresennol mewn cyfarfod o’r fath, yn ôl gofyniad/caniatâd a/neu wahoddiad y corff llywodraethu, i gyflwyno tystiolaeth neu roi cyngor.

Trafodion Cydbwyllgorau

40. Rhaid i’r clerc alw cyfarfodydd y cydbwyllgor ac, wrth gyflawni’r swyddogaeth hon, rhaid iddo gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y cydbwyllgor neu’i gadeirydd (cyn belled â’u bod yn cyd-fynd ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd gan y cydbwyllgor).

41. O leiaf bum niwrnod clir cyn y cyfarfod, rhaid i'r clerc ddarparu'r canlynol i bob aelod o'r cydbwyllgor ac i benaethiaid yr ysgolion a'r cyrff cydweithredol (pa un a ydynt yn aelodau o'r cydbwyllgor ai peidio):

- hysbysiad ysgrifenedig o'r cyfarfod;
- copi o agenda'r cyfarfod; ac
- unrhyw adroddiadau neu bapurau i'w hystyried yn y cyfarfod.

Gellir rhoi cyfnod hysbysu byrrach os yw'r cadeirydd neu'r pwyllgor o'r farn fod angen sylw brys ar y mater, cyn belled ag y nodir hyn yn glir yn hysbysiad y cyfarfod.

42. Ni chaiff trafodion cydbwyllgor eu dirymu gan swyddi gwag ymhlith aelodaeth y pwyllgor neu unrhyw ddiffygion o ran penodi unrhyw aelod o'r pwyllgor. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn dileu cyfrifoldeb y corff llywodraethu i gywiro unrhyw ddiffygion.

43. Ni ellir cynnal pleidlais ar unrhyw fater mewn cyfarfod cydbwyllgor oni bai bod y mwyafrif o aelodau'r pwyllgor sy'n bresennol yn aelodau o gorff cydweithredol.

44. Caiff pob cwestiwn sydd angen gwneud penderfyniad yn ei gylch mewn cyfarfod cydbwyllgor ei benderfynu gan fwyafrif y pleidleisiau gan aelodau'r pwyllgor sy'n bresennol ac yn pleidleisio ar y cwestiwn.

45. Os bydd nifer cyfartal o bleidleisiau, bydd gan yr unigolyn sy'n gweithredu fel cadeirydd at ddibenion y cyfarfod ail bleidlais neu'r bleidlais fwrw, cyn belled bod yr unigolyn hwnnw'n aelod o gorff cydweithredol. (Yn y cyd-destun hwn, ystyr 'aelod' yw 'llywodraethwr').

Cofnodion

46. Rhaid i'r clerc, neu'r unigolyn sy'n gweithredu fel y clerc at ddibenion y cyfarfod, drefnu cofnodion o drafodion cyfarfod cydbwyllgor; a rhaid i gadeirydd cyfarfod nesaf y cydbwyllgor eu llofnodi (yn amodol ar gymeradwyaeth y cydbwyllgor).

47. Rhaid i'r cydbwyllgor ddarparu copi o'r cofnodion drafft neu o'r cofnodion wedi'u llofnodi o unrhyw rai o'i gyfarfodydd i'w ALl os yw'r awdurdod lleol hwnnw'n gwneud cais amdanynt.

48. Rhaid i'r clerc gadw cofnodion y trafodion mewn llyfr i'w gadw at y diben hwnnw a gellir eu cadw ar dudalennau rhydd wedi'u rhifo mewn trefn olynol ond os felly, rhaid i'r unigolyn sy'n llofnodi'r cofnodion roi llythrennau cyntaf ei enw ar bob tudalen. Rhaid i gofnodion o'r fath gynnwys enwau'r rhai sy'n bresennol ac yn pleidleisio ac unrhyw un arall a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

49. Yn unol â pharagraff 50, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, rhaid i'r cydbwyllgor roi'r canlynol i'r cyrff llywodraethu cydweithredol eu harchwilio a sicrhau eu bod ar gael i unrhyw un â diddordeb i'w harchwilio ym mhob un o'r ysgolion cydweithredol:

- agenda pob cyfarfod;
- cofnodion pob cyfarfod, wedi'u llofnodi;
- unrhyw adroddiad neu bapur arall a ystyriwyd mewn unrhyw gyfarfod o'r fath; a
- cofnodion drafft o unrhyw gyfarfod, os ydynt wedi'u cymeradwyo gan yr unigolyn a gadeiriodd y cyfarfod hwnnw.

50. Gall y cydbwyllgor hepgor o'r uchod unrhyw ddeunydd sy'n gysylltiedig â:

- rhywun sy'n gweithio, neu y cynigir y dylai weithio, i gorff cydweithredol;
- disgybl neu fyfyriwr penodol, neu ymgeisydd i'w dderbyn gan y corff cydweithredol;
- unrhyw fater arall y cred y cydbwyllgor ddylai fod yn gyfrinachol oherwydd ei natur.

51. Rhaid i bob tudalen o gopïau cyhoeddedig o unrhyw gofnodion drafft trafodion cyfarfodydd a gymeradwyir gan y cadeirydd nodi mai cofnodion drafft ydynt.

Cyfyngiadau ar y Bobl sy'n Cyfrannu at Drafodion

52. Yn y rheoliadau, ystyr y term 'person perthnasol' yw aelod o'r cydbwyllgor, pennaeth ysgol a gynhelir neu pennaeth coleg addysg bellach o gorff cydweithredol neu glerc y cydbwyllgor.

53. Rhaid i bersonau perthnasol, os ydynt yn bresennol yng nghyfarfod y cydbwyllgor, ddatgan eu budd, tynnu'n ôl o'r cyfarfod, a pheidio â phleidleisio ar fater:

- os gall gwrthdaro godi rhwng eu buddiannau nhw a buddiannau corff cydweithredol, neu
- os oes amheuaeth resymol ynglŷn â'u gallu i weithredu'n ddiduedd mewn perthynas â mater y mae angen gwrandawiad teg arno, neu
- os oes ganddynt ddiddordeb ariannol yn y mater.

54. Gall cydbwyllgor:

- ganiatáu i unrhyw un sy'n gallu rhoi tystiolaeth ddod i unrhyw wrandawiad a gynhelir ynghylch unrhyw fater er mwyn cyflwyno'r dystiolaeth honno;
- clywed sylwadau person perthnasol sy'n gweithredu mewn modd heblaw fel person perthnasol.

55. Gall person perthnasol gychwyn contract gyda chorff cydweithredol y mae hawl ganddo neu ganddi i elwa ohono.

56. Nid oes rhaid i'r unigolyn sy'n gweithredu fel clerc mewn cyfarfod cydbwyllgor adael y cyfarfod oni bai bod y cydbwyllgor yn ystyried ei benodiad, tâl neu gamau i'w ddisgyblu. Fodd bynnag, os byddai'r rheoliad neu'r Atodlen wedi gofyn iddo ef neu iddi hi adael y cyfarfod fel arall, rhaid iddo/iddi beidio â gweithredu mewn unrhyw fodd heblaw fel clerc.

57. Os bydd unrhyw wrthdaro o safbwynt a oes rhaid i berson perthnasol adael cyfarfod y cydbwyllgor a pheidio â phleidleisio, aelodau eraill y cydbwyllgor sy'n bresennol yn y cyfarfod fydd yn penderfynu ar hyn.

58. Pennir y ddarpariaeth ar gyfer buddiannau ariannol a mathau penodol eraill o wrthdaro buddiannau yn Atodlenni'r Rheoliadau.

Ffedereiddio Cyrff Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru

59. Ers Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac ar ôl hynny Deddf Addysg 2002 mae gan bob ysgol a gynhelir yng Nghymru ei chorff llywodraethu ei hun.

60. Mae Deddf Addysg 2002 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ei gwneud yn bosibl i ddau neu fwy o gyrff llywodraethu uno'n ffurfiol er mwyn creu un corff llywodraethu wedi'i ffedereiddio ("ffedereiddio"). Golyga'r broses hon fod pob corff llywodraethu unigol yn cael eu diddymu gan greu yn eu lle un corff llywodraethu ar gyfer yr holl ysgolion yn y corff ffederal. Nid yw'r ysgolion yn cael eu diddymu ac maent yn cadw eu hunaniaeth eu hunain.

61. Yr amgylchiadau lle y gallai cyrff llywodraethu ystyried cydweithio o dan un corff llywodraethu ffederal unigol yw:

- grwpio ysgolion bach neu wledig er mwyn manteisio ar arbedion maint ac arbenigedd rheoli (gan gynnwys cymorth llywodraethwyr), staffio a materion cysylltiedig â'r cwricwlwm;
- trefniadau cydweithio cyfnodol e.e. ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo; neu ysgolion iau a'r ysgolion babanod sy'n eu bwydo;

- dod ag ysgolion gwannach i mewn i glwstwr o ysgolion gwell; a
- chodi safonau addysgol ac effeithiolrwydd ysgolion drwy annog ysgolion i gydweithio er mwyn rhannu syniadau ac arfer da (e.e. ar fater cysylltiedig â'r cwricwlwm, arweiniad neu gynhwysiant).

62. Cyn cael eu ffedereiddio, bydd yn rhaid i ysgolion fod yn hyderus:

- eu bod yn rhannu diben cyffredin; er enghraifft eu bod yn ddaearyddol agos, bod ganddynt thema gyffredin, fel bod yn ysgolion â chymeriad crefyddol neu ysgolion cyfrwng Cymraeg;
- eu bod yn ymddiried ac yn ymrwymo ar bob lefel o reolaeth yr ysgolion ac yn dangos hyn drwy fod yn agored a pharod i weithredu ar y cyd; ac
- eu bod yn barod i ymrwymo amser ac adnoddau er mwyn sicrhau bod eu gwaith ar y cyd yn effeithiol a chynaliadwy.

63. Byddai ysgolion sy'n ffurfio neu'n ymuno â ffederasiwn o gyrff llywodraethu yn parhau i fod yn ysgolion unigol, gan gadw'u categori a'u
VA cymeriad presennol. Er enghraifft, ni fydd ysgolion sydd â chymeriad crefyddol yn unol â darpariaethau adrannau 58-60 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn newid. Bydd ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sy'n ymuno â ffederasiwn cymysg (h.y. un sy'n cynnwys ysgolion cymunedol neu ysgolion gwirfoddol a reolir) yn parhau i gynnal eu cyfrifoldebau o safbwynt derbyniadau, staffio, etholiadau staff-lywodraethwyr/ rhiant-lywodraethwyr ac ati.

Cyd-destun Deddfwriaethol

64. Mae Adran 24 o Ddeddf 2002 yn galluogi Gweinidogion Cymru i lunio rheoliadau sy'n ei gwneud yn bosibl i gyrff llywodraethu ysgolion ffedereiddio o dan gorff llywodraethu unigol. Daeth Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010 ('y Rheoliadau Ffedereiddio') i rym ar 12 Ebrill 2010.

65. Mater i gyrff llywodraethu yw penderfynu a ydynt yn dymuno ffedereiddio. Os ydynt yn dymuno gwneud hynny mae'r Rheoliadau Ffedereiddio yn pennu:

- y broses sy'n galluogi i hyd at 5 o gyrff llywodraethu o unrhyw gategori o ysgol sefydlu corff ffederal neu ymuno ag un;
- maint corff llywodraethu wedi'i ffedereiddio, gyda lleiafswm o 15 o lywodraethwyr ac uchafswm o 25;
- y categorïau o lywodraethwyr ac egwyddorion aelodaeth gyfrannol, gan ystyried gwahanol gategorïau ysgolion; ac
- y broses sy'n ei gwneud yn bosibl i gyrff llywodraethu adael corff ffederal neu ei ddiddymu.

66. Mae'r Rheoliadau Ffedereiddio yn rhagnodi'r broses o wneud penderfyniadau sy'n arwain at ffedereiddio, ac mae'n cynnwys ymgynghori â'r ALl sy'n cynnal yr ysgolion, rhieni, penaethiaid a staff ysgolion, yr awdurdod esgobaethol (lle y bo'n berthnasol) ac unedau llafur y mae eu haelodau'n gweithio yn yr ysgolion. Mae'n rhaid i'r cynnig ynghylch ffedereiddio fod ar gael i'w archwilio ar bob adeg briodol ym mhob ysgol sy'n rhan o'r corff ffederal arfaethedig. Mae'n rhaid i'r dyddiad ffedereiddio a gynigir fod o leiaf 125 o ddyddiau ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig. Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben mae'n rhaid i'r cyrff llywodraethu ystyried unrhyw ymatebion a phenderfynu a ddylent:

- fynd ati yn unol â'r bwriad;
- mynd ati ag addasiadau i'r cynnig fel sy'n briodol ym marn y cyrff llywodraethu;
- peidio â ffedereiddio.

67. Amlinella'r Rheoliadau Ffedereiddio'r gweithdrefnau ynghylch sut y dylai corff llywodraethu sydd wedi'i ffedereiddio gynnal ei fusnes; er enghraifft, penodi ac ethol llywodraethwyr, cyfarfodydd a gweithdrefnau ar gyfer corff llywodraethu wedi'i ffedereiddio a chyfarfodydd pwyllgorau, offerynnau llywodraethu, cymhwysiad ac anghymwysiad etc. Mae'r darpariaethau hyn yn efelychu'r rheoliadau a bennwyd ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion unigol a amlinellwyd yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion 2005. Heblaw am reoliadau 2005, mae'r holl reoliadau eraill ynghylch llywodraethu ysgolion yr un mor berthnasol i gyrff llywodraethu wedi'u ffedereiddio ag ydynt i gyrff llywodraethu ysgolion unigol.

68. Gall cyrff llywodraethu ffedereiddio â chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir o fewn yr un ALl neu ALl arall. O dan amgylchiadau o'r fath mater i'r awdurdodau lleol perthnasol fydd penderfynu pa un fydd yr 'awdurdod sy'n cynnal'. Nid yw rheoliadau 2010 ynghylch ffedereiddio yn galluogi cyrff llywodraethu ysgolion i ffedereiddio â Sefydliad Addysg Bellach nac ag ysgol annibynnol.

Y Gyfraith

Deddf Diwygio Addysg 1988: Adran 198 ac Atodlen 10
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998: Adrannau 28, 58- 60, a 69
Deddf Addysg 2002
Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007)
Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006:
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/ukpga_20060040_en_14 - pt9-pb6-l1g166
Rheoliadau Cydweithio rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008
Rhif OS 168/2008
Rheoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008

Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010.